

Cyfleoedd i integreiddio ADCDF mewn i'r Cwricwlwm.

Gan Sioned Howells

Dywed NQS (2013) fod cynaliadwyedd ddim yn unig am leihau gwastraff, gwarchod bywyd gwyllt, ar amgylchedd. Mae cynaliadwy yn meddwl ecwiti, meddwl am yr effaith ar y byd, a bod yn deg. Dylai pob plentyn ac oedolyn cymryd rôl actif am edrych ar ôl yr amgylchedd. Mae ADCDF yn dangos sut i wneud hwn trwy dangos gwahanol themâu, ac wrth addysgu gweithwyr proffesiynol er mwyn iddynt hwy ddatblygu dealltwriaeth plant.

“Nod Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yw sicrhau bod dysgwyr o bob oedran yn deall effaith eu dewisiadau ar bobl eraill, yr economi a'r amgylchedd”, (Llywodraeth Cymru, 2017). Dywed Llywodraeth Cymru (2008) fod yna rhai heriau i ysgolion wrth wneud ADCDF. Mae rhain yn cynnwys sefydlu trwy'r cwricwlwm, cyfleoedd i ddysgwyr datblygu eu hymwybyddiaeth fyd-eang eu hunain, pwyslais cyfartal ar holl themâu ADCDF, a adnabod cysyniad o ryng-ddibyniaeth yn rhan ganolog o ADCDF. Mae ADCDF yn herio dysgwyr edrych yn lleol ac a'r diwylliannau gwledydd eraill er mwyn dangos nhw sut gallent gyfrannu at fywydau pobl eraill. Dywed Llywodraeth Cymru (2017) fod ADCDF gyda'r gallu i gael eu cynnwys yn bynciau amrywiol o fewn y cwricwlwm. Yn ôl Estyn (2014) mae ADCDF yn rhoi'r cyfle i herio dysgwyr i gael profiadau diwylliannol amrywiol, dysgu gwerthoedd eu hunain, ac i ddysgu fel i feddwl yn gritigol ac yn greadigol am yr amgylchedd. Dywed NQS (2013) fod er mwyn datblygu cynaliadwyedd mewn addysg fydd angen datblygu ethos am gynladwyedd. Fydd hwn yn cael eu gwneud trwy weithgareddau mawr fel creu tanc dwr, neu mewn tasgau bach fel dyfod y golau, ac ailgylchu papur.

Yn ol Llywodraeth Cymru, dyma beth yw ADCDF:

Mae'n ymwneud â materion mawr y byd – newid yn yr hinsawdd, masnach, y traul ar adnoddau a'r amgylchedd, hawliau dynol, gwrthdaro a democratiaeth – a'u perthynas â'i gilydd a'u perthynas â ni. Mae'n ymwneud â'r ffordd rydy n ni'n trin y ddaear a'n gilydd, faint bynnag o bellter sydd rhyngom. Mae'n ymwneud â'r ffordd yr ydyn ni'n paratoi at y dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2008:4).

Mae gan ADCDF saith thema sef (Llywodraeth Cymru, 2017):

1. Yr amgylchedd naturiol

Dywed Estyn (2014) fod plant Cyfnod Sylfaen o fewn ysgol gyda'r gallu i ddeall yr amgylchedd naturiol o fewn ysgol a chartref. Fodd bynnag, roedd ddim llawer o blant Cyfnod Sylfaen yn cyfeirio at broblemau amgylchedd byd eang, fel prinder dŵr, a ble mae adnoddau gwastraff yn mynd.

2. Defnydd a gwastraff

Dywed Estyn (2014) fod plant Cyfnod Sylfaen gyda'r ddealltwriaeth i beidio gwastraffu adnoddau dŵr ac ynni. Fodd Bynnag, roedd ddim llawer o blant yn deall y pwysigrwydd o ailgylchu ac i leihau gwastraff. Ychydig iawn o'r plant oedd yn deall fel mae adnoddau yn dod, fel yr ydym yn cael eu creu, a ble mae'r adnoddau yn mynd ar ôl iddynt hwy gael eu taflu i ffwrdd.

3. Newid yn yr hinsawdd

Edrych ar gynhesu byd-eang, a sut mae hwn yn effeithio Cymru a gwledydd eraill. Fel mae newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ar bobl, anifeiliaid, ar amgylchedd.

4. Cyfoeth a thlodi

Yn ôl Estyn (2014) mae plant Cyfnod Sylfaen yn ysgolion yn deall effaith anghydraddoldeb ar fywydau pobl eraill, ac fel gallwn ofalu trwy godi arian i'w gyfrannu at elusennau amrywiol.

5. Hunaniaeth a diwylliant

Dywed Estyn (2014) fod ysgolion sydd gyda disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol, yn galluogi plant i adnabod yr effaith bosibl gwahaniaethu a rhagfarn ar unigolyn. Ond yn ysgolion ble nad hwn yn digwydd, "prin yw'r disgyblion sy'n deall y cysyniad hwn o oedran cynnar", (Estyn, 2014).

6. Dewisiadau a phenderfyniadau

Dywed Estyn (2014) fod disgyblion Cyfnod Sylfaen gyda'r ddealltwriaeth am hawliau'r plentyn, a bod ddim pob plentyn yn elwa o'r hawliau hyn. Ond prin yw'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen sydd yn deall fod y penderfyniadau eu hunain yn effeithio ar yr amgylchedd.

7. Iechyd

Dywed Estyn (2014) fod plant Cyfnod Sylfaen gyda'r ddealltwriaeth ar sut i gadw eu hunain yn iach ac i ofalu am iechyd pobl eraill. Mae'r rhain yn cynnwys dŵr glân, tlodi, ac anghydraddoldeb sydd gyda'r gallu i achosi problemau iechyd.

Dywed Estyn (2014) ar ôl ymweld ag ysgol a gweld sut yr oeddwn wedi darparu ADCDF trwy addysg, allwn weld fod yna gwahanol fathau o weithgareddau ar gael. Mae gweithgareddau yma yn cynnwys clwb eco, cyngor ysgol, clwb diwylliant, clwb garddio, clybiau chwaraeon, clwb coginio iach, clwb prosiect Comenius, grŵp masnach deg, Ysgolion Coedwig, gweithgareddau codi arian, prosiectau cymunedol, clybiau iaith, a'r Urdd.

Dywed Llywodraeth Cymru (2008) fod ADCDF ddim i athrawon a dysgwyr yn unig, ond ar gyfer rhieni, gofawyr, llywodraethwyr, ac ymwelwyr. Fydd ADCDF angen cael eu sefydlu

trwy'r cwricwlwm, ym mhob pwnc. Hefyd, dywed fod ADCDF yn dangos y pwyslais ar weithgareddau meddwl yn y Cyfnod Sylfaen, trwy greu profiadau y tu mewn ac yn yr awyr agored, fydd gweithgareddau fel hyn yn rhoi cyfle i blant datblygu syniadau am yr amgylchedd, a dysgu am y bobl sydd yn byw ynddo. Prif bwnt y ADCDF yw bod 'meddwl' eco yn cael eu mewn ffordd i ddefnyddio yn fywyd pob dydd. Mae'r disgyblion yn cael eu dylanwadu i feddwl yn bositif ynglŷn ar amgylchedd, wrth feddwl am bobl a natur. Fydd hwn yn rhoi cyfle i fod yn hyderus wrth reoli'r amgylchedd eu hunain. Mae rhaglen yma yn rhoi'r cyfle i gael profiadau ddysgu newydd, a chynnwys gwahanol bobl. Mae'r rhaglen yn cynnwys pob plentyn, plant o wahanol lefelau, athrawon, rhieni, ar gymuned.

Gwledydd

Dangoswyd AESA (2016) gweithgaredd sydd yn cael eu wneud yn cwricwlwm Awstralia, fel creu cacennau mwd. Mae'r plant Sylfaen cwricwlwm Awstralia yn cael cyfleuoedd i chwarae yn yr awyr agored. Roedd yn defnyddio cynhwysydd plastig oedd wedi cael eu rhoi gan rieni. Wrth wneud y gweithgaredd roedd ganddynt hwy gyfle i dynnu lluniau o'i gilydd, ac yna yn gwyllo ac edrych arno o fewn y dosbarth ac yn trafod, a thynnu lluniau ar papur o beth oeddent nhw wedi eu gwneud. Mae hwn yn dilyn syniad Mosaic, fod y plant yn creu gwybodaeth yn ffurf oedd yn addas iddyn nhw (Clark a Moss, 2011). Wrth rhoi cyfleuoedd i'r plant cyfle eu syniadau mewn ffurf Mosaic, roedd dangosiad glir o'r syniad mae'r plentyn yn treual cyfle. Ar ôl wneud y gweithgaredd mae AESA (2016) yn awgrymu adfyfrio wrth ofyn cwestiynau fel, allwn gynyddu'r maint? Os modd creu fwy o gyfleuoedd i'r plant gofyn fwy o gwestiynau? Allwn gael fwy o ymglymiad gan y rhieni? Dywed Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) eu bod e'n bwysig fod plant cael profiadau yn yr awyr agored. Fel dangoswyd gyda'r gweithgaredd mwd Awstralia (AESA, 2016), roedd llawer o elfennau cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gwneud fel mathemateg, iaith, a TGCH (AESA, 2016). Yn ogystal â na, ddywed Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) fod wrth bod yn yr awyr agored mae plentyn yn 'hyrwyddo datblygiad a chwilfrydedd naturiol plant i archwilio a dysgu trwy brofiadau personol'. Mae hwn yn mynd gyda syniad Piaget fod plant yn 'little scientist', gan ddysgu o brofiadau a digwyddiadau gan arbrofi (Siencyn, 2010). Dywed AAEE (2016) fod 80% o athrawon o fewn Awstralia ddim yn deall cynladwydd ac yna ddim dysgu o fewn yr ysgol. Mae rhaglen gan AAEE (2016) wedi dechrau rhaglen 'getting started with sustainability in schools', sydd yn edrych o fewn y dosbarth, yn yr ysgol, gyda'r gymuned, a chysylltiad rhwydwaith. Sydd yn dangos y pwysigrwydd o ddim yn unig ddysgu a datblygu o fewn y dosbarth, ond gyda theulu ar gymuned. Mae AESA (2016) yn dangos fod wrth wneud gweithgareddau yn yr ardd fydd y plant yn datblygu gwahanol feysydd o'r


cwricwlwm, yn cynnwys mathemateg, gwyddoniaeth ac iaith. Wrth i'r plant dysgu am faint wrth greu cacen mwd, yr oeddwn yn dysgu geiriau mathemateg newydd am hyd, mas.

Mudiadau

Mae yna llawer o mudiadau ar gael ar gyfer dysgu ADCDF sydd yn galluogi gweithwyr proffesiynol cyrraedd yr saith thema ADCDF. Mae dogfen gan Amdro (2011) wedi dangos mudiad, pynciau i edrych mewn i, ac yn rhoi enghreifftiau o sut mae'r rhain yn defnyddio thema ADCDF, sydd yn galluogi athrawon gwels beth allwn wneud o fewn yr ysgol, neu pa mudiadau i cysylltu gyda. Un mudiad yw ysgolion-eco, wrth edrych ar ysgolion-eco allwn gweld y gwahanol thema o ADCDF cael eu ddefnyddio. Y thema gyntaf yw'r amgylchedd naturiol, mae Amdro (2011) wedi awgrymu pynciau ar gyfer pob thema. Yn y thema yma, mae'r pynciau sydd yn cael eu hawgrymu yw byw'n iach, tiroedd yr ysgol, trafnidiaeth, a dŵr. Mae yna enghreifftiau wedi cael eu cynnig am y pynciau, fel tiroedd yr ysgol, mae'r rhaglen yn awgrymu rhoi awgrymiadau i ysgolion ynghylch creu cynefinoedd a fydd yn gwella bioamrywiaeth tiroedd yr ysgol. Yr ail thema yw treuliant a gwastraff, ar bynciau allwn edrych arno yw ynni, dwr, dinasyddiaeth fyd-eang, a sbwriel. Yn ôl Amdro (2011) wrth edrych ar ynni allwn edrych ar sicrhau fod plant yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng defnyddio ynni a'r costau ariannol, dangos bod mesurai syml i arbed ynni sy'n rhad neu heb dal yn gallu bod yn effeithiol a gwneud arbedion sylweddol. Y drydedd thema yw newid yn yr hinsawdd, ar bynciau allwn edrych arno yw dwr, trafnidiaeth, dinasyddiaeth fyd-eang, sbwriel, a lleihau gwastraff. Dywed Amdro (2011) fod wrth edrych ar ddinasyddiaeth fyd-eang allwn gynyddu ymwybyddiaeth o sut y gall ein gweithredoedd ni gael effaith ar bobl sy'n byw mewn gwledydd eraill. Fodd bynnag, awgryma Elm (2007), wrth wneud ymchwil ar blant 4 i 6 blwydd oed yn Sweden, fod y plant yn meddwl am ddyfodol personol, ac nid ar amgylchedd byd-eang, mae hwn yn dangos fod plant ifanc dim gyda'r dealltwriaeth i meddwl am problemau byd-eang ac feddwl mwy ar problemau'r gymdeithas. Mae Estyn (2014) yn cytuno gyda hwn gan ddweud fod wrth arsylwi llawer o ysgol roedd y plant cyfnod Sylfaen, yn deall problemau amgylchedd yn eu cymuned ond ddim yn wledydd eraill. Fyddai'n anodd i weithwyr proffesiynol wneud pob adran o ADCDF gan fod ddim digon o ddealltwriaeth ynglŷn â phroblemau byd-eang gyda phlant ifanc yn ol Estyn (2014) a Elm (2007). Y bedwaredd thema yw cyfoeth a thlodi, mae'r ddogfen yn dangos pynciau allwn edrych arno yw dŵr, byw'n iach, tiroedd yr ysgol, dinasyddiaeth fyd-eang, a thrafnidiaeth. Ac o fewn y pynciau maent yn rhoi enghreifftiau. Gyda dŵr mae'r ddogfen awgrymu edrych ar fynediad i ddŵr glan, cymharu â chyferbynnu effeithiau sychderau mewn gwahanol wledydd, a chymharu Cymru gyda Bangladesh. Ond, dywed Estyn (2014) fod wrth arsylwi ysgolion

gyda ADCDF, allwn weld fod plant Cyfnod Sylfaen ddim yn cyfeirio at brinder dŵr, a phroblemau amgylchedd byd-eang. Mae Elm (2006) yn cytuno gydag Estyn (2014), gan ddweud fod plant ifanc gyda phryderon ar ailgylchu a natur yn gymunedau eu hunain, ond ddim ar broblemau amgylchedd byd-eang. Ond Awgryma Page (2000) wrth wneud ymchwil ar blant o 4 i 5 blwydd oed yn Awstralia, eu bod yn dangos pryderon am faterion cymhleth, fel cynhesu byd-eang. Mae hwn yn dangos fod plant gyda'r gallu i ddeall problemau amgylchedd byd-eang, ond fod angen cael eu dysgu yn effeithiol gydag arweinyddiaeth gywir. Y pumed thema yw hunaniaeth a diwylliant. Yr unig bwnc i edrych arno yw dinasyddiaeth fyd-eang, awgryma Amdro (2011) dylech alluogi'r plant edrych ar gysylltiadau rhyngddynt hwy ag eraill yn y byd (datblygol) ac mewn gwledydd eraill. Does dim llawer yn y pumed thema er mwyn rhoi cymorth i athrawon a gweithwyr proffesiynol er mwyn mabwysiadu'r thema, ac yna all y pwnc yma cael eu hanwybyddu pryd mae ADCDF yn cael eu mewnfudo i'r cwricwlwm. Thema rhif chwech yw dewisiadau a phenderfyniadau, ar bynciau yw ynni, dwr, trafnidiaeth, byw'n iach, tiroedd yr ysgol, a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae enghreifftiau ar gyfer tiroedd yr ysgol yn awgrymu i ddisgyblion gynnal arolwg o'r tiroedd yr ysgol, creu meini prawf dosbarthu, a nodi camau gwella a chytuno arnynt. Y thema ddiwethaf yw iechyd, y pynciau o fewn hwn yw byw'n iach, tiroedd yr ysgol, dinasyddiaeth fyd-eang, lleihau gwastraff, ac ynni. Awgryma Amdro (2011) gweithgareddau i wneud gyda byw'n iach yw, cynnal archwiliad o iechyd a lles yr ysgol, a thrafod gwerth gwahanol fwydydd. Dywed Prince (2010) fod plant ifanc yn dylanwadu rhieni, teulu, ar gymuned gyda thema ADCDF. Gyda'r thema byw'n iach all y plentyn awgrymu i rieni fod angen bwyta bwyd mwy iach, neu awgrymu prynu bwyd yn lleol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) wedi dweud fod angen i'r thema cael eu defnyddio fel un, ac o fewn y cwricwlwm. Dylai ADCDF cael eu defnyddio o fewn pob pwnc o'r cwricwlwm, a ni ddylai cael eu hystyried fel pwnc unigol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) yn rhoi enghraifft ar sut all pob 7 thema cael eu defnyddio mewn i un syniad (Ffigwr 1). Gan fod Amdro (2011) wedi dangos gwahanol enghreifftiau ar gyfer pob 7 thema, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) hefyd yn dangos fod y thema yn gallu cael eu hintegreiddio mewn i un.



(ffigwr 1, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

Deddfau a polisïau

Mae yna lawer o fudiadau gan Lywodraeth Cymru i annog pawb i fod yn gynaliadwy, wrth gydweithio a deall fel mae penderfyniadau ni gyda'r galli effeithio unrhyw un. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyswllt enfawr gydag Affrica er mwyn helpu Affrica datblygu, ac yr un pryd dysgu pobl Cymru am fel i fod yn gynaliadwy wrth feddwl am wledydd eraill. Mae Masnach Deg wedi bod mudiad pwysig wrth ddatblygu dealltwriaeth plant o'r byd ac annog help i wledydd eraill. Yn 2008 wnaeth Cymru dod cenedl Masnach Deg cyntaf y byd (Cymru Masnach Deg, Dim Dyddiad). Dywed Cymru Masnach Deg (2015) fod dylai Masnach Deg cael eu defnyddio o fewn ADCDF er mwyn datblygu dealltwriaeth plant o'r byd, eu hunain, pobl eraill, a natur. Mae Masnach Deg (2017) yn cynnig gwobr Masnach Deg i ysgolion, sydd yn cynnwys 3 lefel, Fairaware, Fairactive, a Fairachiever. Er mwyn cyrraedd y lefel cyntaf fydd angen i'r ysgol wneud tasgau dysgu yn y dosbarth, allwn edrych ar ble mae bwyd o, ar bobl sydd yn paratoi'r bwyd, meddwl amdano beth yw bod yn deg, pam fod angen Masnach Deg, pam fod cynhesu byd-eang, ac fel mae Masnach Deg yn gweithio. Mae gwefan Masnach Deg yn cynnig gwahanol adnoddau er mwyn dysgu plant o fewn y dosbarth, ac yn dangos gweithgareddau am wahanol lefel. Mae yna adnodd ar gyfer plentyndod cynnar, sef 'Pablo the super-banana', mae'r adnodd yma yn dysgu plant am ble mae bananas yn cael eu tyfu a sut yr ydym yn cyrraedd i'r siop. Allwn ddefnyddio'r clip

ffilm sydd wedi cael eu gwneud, neu stori, ac yna'n mae yna taflen sydd yn cynnig gweithgareddau i'r plant i wneud a chaneuon i ganu (Masnach Deg, 2017a).

Mae Masnach Deg (Dim dyddiad A) yn awgrymu gwahanol fathau o adnoddau a gweithgareddau gyda phlant, stori amdano siocled gyda'r cymeriadau Charlie a Lola, sydd yn siarad am daith siocled ac fel gallwn helpu trwy brynu adnoddau Masnach Deg. Mae gweithgareddau fel hyn yn dilyn awgrymiad Llywodraeth Cymru (2017) ar fel i gydgyssylltu ADCDF mewn i addysg. Dywed Estyn (2014) fod angen i weithwyr proffesiynol defnyddio adnoddau gwahanol er mwyn cael dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen i gyrraedd pob nod o ADCDF. Dywed Llywodraeth Cymru (2016) fod ysgolion sydd yn wneud creu caffi Masnach Deg yn annog y gymuned a theuluoedd i ddod ac i gefnogi'r hyn yr ydym yn creu. Mae hwn yn rhoi cyfle i blant i ddatblygu dealltwriaeth eu rhieni ar gymuned ar beth yw Masnach Deg, ac fel i fod yn gynaliadwy. Dywed Prince (2010) fod plant yn dylanwadu teuluoedd ar gymuned ar bethau fel bod yn gynaliadwy, ac fel i helpu'r byd.

Mae Llywodraeth Cymru (2016a) wedi creu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd yna i helpu a datblygu plant ifanc er mwyn iddyn nhw gael dyfodol teg. Mae yna 7 bwriad lles er mwyn creu byd sydd yn fwy teg gyda llai o tlodi, a helpu cynhesu byd-eang. Rhif 1 un yw Cymru lwyddiannus, ble mae pawb gyda swydd a does dim tlodi. Yr 2ail yw Cymru hydwyth, yn barhad am bethau fel llifogydd. Y 3 bwriad yw Cymru fwy iachus, fod pawb yn fwy iachus a gyda'r gallu i weld doctor ar unrhyw bryd. Yr 4 bwriad yw Cymru fwy cyfartal, fod pawb gyda siawns cyfartal beth bynnag yw eu cefndir. Y 5 yw cymuned fwy cydlynol. Bwriad rhif 6 yw diwylliant dirgrynol ac iaith Cymraeg sydd yn llwyddo. Y bwriad diwethaf yw Cymru sydd yn fwy ymatebol yn fyd-eang, sef ein bod yn edrych ar ôl yr amgylchedd a phobl arall yn y byd (Llywodraeth Cymru, 2016a). Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 gan Lywodraeth Cymru (2016b) yn gydfyd gyda ADCDF, gan eu bod yn edrych ar wella'r byd yn naturiol, gyda chymdeithas, tlodi, digwyddiadau byd-eang, a lot fwy. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cynnwys pawb o fewn Cymru ac nid yn unig plant, ac wrth ddefnyddio'r Ddeddf a ADCDF bydd y byd yn dod yn fwy ymwybodol ar sut i roi cymorth i'r gymuned, yn fyd-eang, fel i atal a lleihau cynhesu byd-eang, ac unrhyw anghydraddoldeb sydd yn y byd.

Diwedd glo

Mae ADCDF yn dysgu athrawon, plant, teuluoedd, ar gymuned sut i wella'r amgylchedd, ac anghydraddoldeb yn y byd. Mae yna lawer o fudiadau ar gael i athrawon er mwyn cael adnoddau dysgu, neu gymorth wrth iddyn nhw ddod allan a dysgu plant am wahanol feysydd i ymwneud gyda'r amgylchedd, ac anghydraddoldeb. Mae Estyn (2014) wedi dangos fod

dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen ddim yn deall yn ddyfnder rhoi pynciau sydd yn cael eu Nodi yn ADCDF, ond mae addysg ac ymchwil yn wledydd eraill fel Awstralia yn dangos fod plant yr un oedran gyda'r galli i ddeall problemau sydd yn cael eu gosod o fewn ADCDF. Mae'r gwledydd eraill hefyd yn dangos y pwysigrwydd ar fel mae'r athrawon yn dysgu'r wers, a phwysigrwydd fod yr amgylchedd o fewn ethos athrawon er mwyn iddyn nhw roi'r addysg gorau ar gyfer plant. Mae'r mudiadau, gwledydd eraill, a ADCDF yn dangos i athrawon fel gallwn gysylltu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gyda ADCDF trwy gynnig gwahanol weithgareddau ac adnoddau sydd yn egluro pa nod o'r cwricwlwm yr ydym yn cyrraedd yn cynnwys ADCDF. Mae gwledydd eraill, a mudiadau wedi dangos sut all athrawon cynnwys teuluoedd ar gymuned o fewn y dysgu, trwy ofyn am adnoddau ailgylchu, neu greu caffï Masnach Deg. Mae yna lawer o gymorth yn fudiadau, y Llywodraeth, ac wrth edrych ar wledydd eraill ar gael i athrawon.

Cyfeirnod

AAEE (2016) 'Getting started with Sustainability in Schools: A teaching resource and portal' <http://www.aaee.org.au/publication/sustainability-in-schools/> [Darllenwyd: 29/11/2017].

AESA (2016) 'Foundation, in the garden' <http://www.sustainabilityinschools.edu.au/foundation-in-the-garden> [Darllenwyd: 30/11/2017].

Amdro (2011) 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Mapio Dyfarniadau' <http://www.amdro.org.uk/SiteCollectionDocuments/ESDGC/ADCDF%20Mapio%20Dyfarniadau.pdf> [Darllenwyd: 1/12/17].

Clark, A. and Moss, P. (2011) *Listening to Young Children: The Mosaic Approach*. 2nd ed. London: National Children's Bureau.

Cymru Masnach Deg (2015) 'Strategy Update 2012 – 2015', <http://fairtradewales.com/about/vision-mission> [Darllenwyd: 1/12/2017].

Cymru Masnach Deg (Dim Dyddiad) 'About' <http://fairtradewales.com/about> [Darllenwyd: 1/12/17].

Elm, A. (2006) Young children's concerns for the future – a challenge for student teachers, paper presented at conference on *Children's Identity and Citizenship in Europe*, Riga, May.

Estyn (2014) 'ADCDF: Cynnydd mewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang' Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2008) 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion', Yr Adran plant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Llywodraeth Cymru (2016) 'Wales for Africa: 10 Years 2006 – 2016' <http://gov.wales/docs/caecd/publications/161007-wales-for-africa-10-years-en.pdf> [Darllenwyd: 27/12/2017].

Llywodraeth Cymru (2016a) 'Well-being of Future Generations Act: A guide for young people' <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/160401-wfg-accessible-guide-for-young-people-en.pdf> [Darllenwyd: 15/11/2017].

Llywodraeth Cymru (2016b) 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy> [Darllenwyd: 18/11/2017].

Llywodraeth Cymru (2017) 'Addysg ar gyfer Datblygu cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang' <http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/europeanandinternational/sustainabledevelop/?skip=1&lang=cy> [Darllenwyd: 28/11/2017].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Addysg ar gyfer Datblygu Canliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: gwybodaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Masnach Deg (2017) 'FairAware is the first Fairtrade Schools Award and is about finding out where your school is in terms of understanding Fairtrade and using Fairtrade products.'

<http://schools.fairtrade.org.uk/fairtrade-schools-awards/how-to/> [Darllenwyd: 1/12/2017].

Masnach Deg (2017a) 'Pablo the super-banana (for early years groups)'

<http://schools.fairtrade.org.uk/resource/pablo-the-super-banana/> [Darllenwyd: 28/11/2017].

Masnach Deg (Dim Dyddiad A) 'Teaching & Learning'

<http://fairtradewales.com/resources/teaching-learning> [Darllenwyd: 1/12/2017].

Prince, C. (2010) 'Sowing the seeds: education for sustainability within the early years curriculum', *European Early Childhood Education Research Journal*, 18, 3, 423-434tt.